# MEREDITH, ROBERT (1823 - 1893), argraffydd yn U.D.A.;

**Enw:** Robert Meredith
**Dyddiad geni:** 1823
**Dyddiad marw:** 1893
**Rhiant:** Robert Meredith
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd 23 Medi 1823 yn Y Ffynnon, Blaenau Ffestiniog, mab Robert Meredith (y Parch. Robert Meredith, Holland Patent, N.Y., U.D.A., wedi hynny). Ymfudodd i America yn 1831, bu yn Utica ac wedyn yn Marcy, gerllaw Holland Patent, a chafodd ei addysg yn academi Holland Patent. Aeth yn brentis yn swyddfa argraffu E. E. Roberts yn Utica. Yn 1848 aeth i Efrog Newydd i argraffu *Y Cyfaill*, eithr symudodd i Rome, N.Y., a sefydlu ei argraffwasg ei hunan ac argraffu *Y Cyfaill* ynddi am 10 mlynedd. Symudodd i Racine, Wisconsin, yn 1861, ac yn 1863 i Chicago; yno, gyda'i ddau fab, sefydlodd wasg i argraffu cerddoriaeth. Ymysg y llyfrau Cymraeg a argraffodd y mae: *Y Pregethwr a'r Gwrandawr*, 1855, *Y Drysorfa Gerddorol*, 1856, a *Blodau Paradwys*, sef llyfr emynau at wasanaeth ysgolion Sul - y gerddoriaeth gan Sankey a'r geiriau wedi eu cyfieithu gan Meredith. Cyhoeddodd, 1885-6, *Adgofion o'r Amser Gynt*. Yn 1858 dechreuodd gyhoeddi *Yr Arweinydd* (Rome, N.Y.). Bu farw 20 Gorffennaf 1893 yn Chicago.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*The Cambrian*, iv, 356

*The Cambrian*, 1894, 158-60

*Y Drych*, 26 Ebrill, 26 Gorffennaf 1856, 15 Ebrill 1886


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734348

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu